# PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 6 Tachwedd, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G.M. Ball, S.J. Haines, W.A. Hennessy, S. Lloyd-Selby a H.M. Payne.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro) a G. Doyle (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolydd Panel); a'r Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), C.P. Franks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, S.D. Perkes (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid), R. Sivagnanam (Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol), N.C. Thomas ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr S.M. Hanks a M.J.G. Morgan; a D. Dutch (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolydd Panel).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref, 2024 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CYFLWYNIAD: COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD DE CYMRU (CHTh) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI cynnwys y cyflwyniad gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, a diolch i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru am ei amser a'i gyfraniadau.

(2) Y DYLID gwahodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru i annerch y Pwyllgor eto i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau unwaith y bydd y Cynllun Heddlu a Throseddu wedi'i gyhoeddi, a phan fydd diweddariadau pellach i'r Pwyllgor yn briodol wedi hynny.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn i'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru ym Mro Morgannwg yn y dyfodol.

EITEM AGENDA 5. CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2025-30 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi cynnwys y cyfeirnod, yr adroddiad a'r Cynllun Corfforaethol Drafft, a bod yr awgrym y dylai'r Cynllun gynnwys ffigurau ynghylch nifer trigolion Bro Morgannwg sydd mewn cyflogaeth, yn cael ei rannu gyda'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr eitem a thrafodaethau yn y cyfarfod a llywio diwygiadau i'r Cynllun Corfforaethol fel rhan o'r rhaglen ymgynghori, cyn i'r Cabinet ystyried drafft terfynol.

EITEM AGENDA 6. EFFEITHLONRWYDD YNNI CARTREF (ECO4 FLEX NEST – CARTREFI CYNNES CYMRU) (CL) –

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi'r adroddiad a'i ddosbarthu eto i'r holl Aelodau Etholedig.

Rheswm dros yr argymhelliad

Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod, a chynorthwyo Aelodau Etholedig i amlygu'r cynlluniau i drigolion.

EITEM AGENDA 7. GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID A CHYMORTH CYNNAR: ADRODDIAD PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN (CGC) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. BLAENORIAETHAU DARPARU TAI CYMDEITHASOL A DIWEDDARIAD AR Y GRANT TAI CYMDEITHASOL (CAT) –

(1) Nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygu tai cymdeithasol newydd ym Mro Morgannwg.

(2) Nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud i wneud y mwyaf o'r grant sydd ar gael i alluogi tai cymdeithasol newydd i gael eu hadeiladu.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.